Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Cais ychwanegol am Gostau Hyfforddi Staff Cymorth

30 Gorffennaf 2014

**Cais am Wybodaeth**

Diolch am eich cais, a dderbyniwyd ar 8 Gorffennaf, yn gofyn:

*Ymhellach i FoI 551, o ran yr 'addysg bellach ac uwch' a nodwyd ar gyfer 2007-08 a 2013-14, a oes modd darganfod pa ACau a gymeradwyodd yr hyfforddiant hwn a'r union gyrsiau AB/AU dan sylw?*

Fel y nodwyd eisoes yn ein hymateb i FoI 551, cyn 2011, roedd cost hyfforddi a datblygu Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad yn cael ei dalu o gyllidebau staffio Aelodau Cynulliad a'i gymeradwyo ar y cyd gan yr Aelod Cynulliad perthnasol a'r Swyddfa Ffioedd (y tîm Cymorth Busnes i Aelodau erbyn hyn).

Ers 2011, mae swyddogion tîm Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cynulliad yn asesu pob achos busnes cyn cymeradwyo unrhyw gais am hyfforddiant. Nid yw'r holl geisiadau hyfforddiant a ddaw i law yn cael eu cymeradwyo. Nid yw Aelodau Cynulliad unigol yn cymryd rhan yn y broses hon o wneud penderfyniadau.

O ran yr union gyrsiau AB/AU a ddilynwyd, teimlwn ein bod eisoes wedi bodloni buddiant y cyhoedd yn yr hyn a nodwyd yn FoI 551 ar 8 Gorffennaf.

Beth bynnag, teimlwn y byddai unrhyw ddatgeliad pellach yn mynd yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf a nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998.  O'r herwydd, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.  Nodir rhesymau pellach dros ddod i'r casgliad hwn yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod i'w gael ar ein gwefan http://www.assemblywales.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ymateb hwn, mae croeso ichi gysylltu â mi. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros wneud cwyn, dylech ddilyn y cyfarwyddiadau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglen**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad**

Daw'r wybodaeth y gofynnir amdani (yr union gyrsiau AB/AU a ddilynwyd yn 2007-08 a 2013-14) o fewn diffiniad data personol Deddf Diogelu Data 1998 ("y Ddeddf"), sef:

> "*data which relate to a living individual who can be identified from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller*".

Felly, mae hon yn wybodaeth sydd wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, lle byddai'i datgelu yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Yr egwyddor berthnasol ar yr achlysur hwn yw'r gyntaf o'r egwyddorion diogelu data.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf yn nodi:

> "*Personal data shall be processed <u>fairly</u> and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met…*"

Wrth ystyried a fyddai datgelu'r wybodaeth yn deg, rydym wedi edrych ar beth fyddai canlyniadau ei datgelu, disgwyliadau rhesymol y bobl dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau nhw ac unrhyw fuddiant teg o'i datgelu. Ein casgliad yw y byddai datgelu'r wybodaeth yn <u>annheg</u>. Mater i Aelodau Cynulliad unigol, fel cyflogwyr, yw hyfforddiant a datblygiad eu Staff Cymorth. Mae'r tîm Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn asesu pob achos busnes cyn cymeradwyo unrhyw hyfforddiant.

Ymhellach i hynny, rôl Staff Cymorth Aelodau Cynulliad yw cefnogi'r Aelodau. Nid yw hon yn rôl uwch nac yn rôl gyhoeddus, er enghraifft, o'i chymharu â rôl Aelod Cynulliad fel cynrychiolydd etholedig. Nid ydynt yn disgwyl i'w gofynion hyfforddiant unigol na'r cyrsiau hyfforddiant y maent yn eu dilyn gael eu gwneud yn gyhoeddus a byddai datgelu'r wybodaeth, yn ein barn ni, yn amharu'n anghyfiawn ar eu preifatrwydd.

Er gwaethaf ein barn ynglŷn â thegwch, aethom ati i ystyried Atodlen 2 i'r Ddeddf. Yr unig amod yn Atodlen 2 sy'n berthnasol yw paragraff 6, sy'n caniatáu ar gyfer prosesu data personol fel a ganlyn:

> "*The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject*."

Mae'r amod hon yn cynnwys prawf triphlyg:

- Mae'n rhaid bod budd cyhoeddus gwirioneddol o ddatgelu'r wybodaeth;
- Mae'n rhaid bod datgelu'r wybodaeth yn angenrheidiol i ddiwallu'r budd hwnnw; a
- Mae'n rhaid sicrhau nad yw datgelu'r wybodaeth yn ymyrryd yn ddiangen â hawliau, rhyddid a budd gwirioneddol y bobl o dan sylw.

Mae budd cyhoeddus ynghlwm â thryloywder yn gyffredinol, ac yn yr achos hwn, mae manylion hyfforddi a datblygu staff cymorth (gan gynnwys y gost) eisoes wedi'i rhoi mewn datgeliad blaenorol (FoI 551).

Mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad gael cymorth digonol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyfforddi a datblygu eu staff yn rhan o hynny ac, yn ein barn ni, mae budd y cyhoedd wedi'i fodloni yn y datgeliad dienw a gafwyd yn FoI 551. Ein casgliad, felly, yw na fyddai darparu manylion pellach am yr union gyrsiau AB/AU a ddilynwyd yn bodloni unrhyw amodau a nodir yn Atodlen 2.

A oes gennych reswm i gwyno neu i fod yn bryderus ynglŷn ag ymateb FOI?

Os oes gennych reswm i gredu nad wyf wedi cymhwyso'r Cod yn gywir neu nad wyf wedi dilyn y gyfraith yn briodol, gallwch wneud cwyn ffurfiol i'r Prif Weithredwr a Chlerc, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion egwyddorion gwneud cwyn y Cynulliad ar gael yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Rhyngrwyd yn http://www.assemblywales.org/conhome/con-complaint.htm. Gadewch imi wybod os ydych am gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr arolwg mewnol, gallwch ofyn yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF